



**CYNGOR BRO MORGANNWG,
SWYDDFEYDD DINESIG, HEOL HOLLTWN,
Y BARRI CF63 4RU**

RHODDIR HYSBYSIAD yn unol ag adrannau 44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod Cyngor Bro Morgannwg, ar ôl ymgynghori â'r bobl ofynnol, yn cynnig gwneud addasiadau a reoleiddir i'r ysgolion fel a ganlyn drwy:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel safle lloeren o Ysgol y Deri o fis Medi 2021;
- rhoi'r gorau i'r Daith a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd o dan reolaeth Ysgol y Deri o fis Medi 2021; ac
- adeiladu adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Ystyrir y cynnig o dan adran 2.3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 a'r Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati.) (Cymru) 2014. Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at Addasiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys:

- cynyddu capasiti ysgol arbennig o leiaf 10% neu 20 lle;
- newid yn y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae ysgol arbennig yn darparu ar eu cyfer;
- cyflwyno neu ddileu darpariaeth AAA neu unrhyw newid yn y math o ddarpariaeth o'r fath; a
- throsglwyddo unrhyw ysgol i safle neu safleoedd newydd.

Crynodeb o'r cynnig:

Mae'r cynnig yn ymwneud â'r ysgolion canlynol:

Enw'r ysgol	Math	Iaith	Ystod oedran	Capasiti	Lleoliad
Ysgol Gynradd Gladstone	Cymunedol	Saesneg	3 - 11	420	Y Barri
Y Daith	Uned Atgyfeirio Disgyblion (UAD)	Saesneg	Dd/B	56	Y Barri / y Bont-faen
Ysgol y Deri	Amgylchiadau	Saesneg	3 - 19	205	Penarth

Byddai'r cynnig yn arwain at 10 lle cynradd yn y ganolfan adnoddau arbenigol a 60 o leoedd uwchradd yn y Ganolfan Dysgu a Lles ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol a meddyliol cymhleth. Byddai mynediad i'r Ganolfan Dysgu a Lles a'r ganolfan adnoddau arbenigol drwy Banel Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol y Cyngor.

Cynigir bod y ganolfan adnoddau arbenigol yn cael ei sefydlu'n ffurfiol o fis Medi 2021 ac yn defnyddio adeiladau presennol ar safle Ysgol Gynradd Gladstone. Byddai Ysgol Gynradd Gladstone yn parhau i fod yn ysgol gymunedol gyda'i chapasiti presennol.

Cynigir sefydlu'r Ganolfan Dysgu a Lles o fis Medi 2021 a bod Y Daith yn dod i ben. Byddai'r holl staff a disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol y Deri o fis Medi 2021 ond byddai

adeiladau presennol Y Daith yn parhau i gael eu defnyddio. Byddai'r gwaith o adeiladu adeilad newydd yr ysgol ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri yn dechrau erbyn mis Rhagfyr 2021 ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2023. Ni fydd Y Daith yn UAD mwyach a byddai'r Ganolfan Dysgu a Lles yn rhan o Ysgol y Deri, ysgol arbennig y Cyngor.

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu cludiant ysgol am ddim i blant o oed ysgol, sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded i'r ysgol briodol agosaf. Yn unol â 'Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008'.

Nid oes unrhyw oblygiadau cludiant yn gysylltiedig â'r ganolfan adnoddau arbenigol gan y byddai'n aros ar safle Ysgol Gynradd Gladstone. Gall disgyblion sy'n gymwys i gael cludiant am ddim i ddysgwyr wneud cais i Dîm Cludiant Ysgol y Cyngor.

Ar hyn o bryd, gweirir y Daith gan 2 fws mini a 6 thacsi. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at ostyngiad cyffredinol yn niferoedd y dysgwyr sy'n teithio. Y rheswm am hyn yw bod y lleoliad arfaethedig mewn lleoliad mwy canolog ym Mro Morgannwg. Mae 60% o'r disgyblion presennol sy'n cael eu cludo i'r UAD yn byw yn y Barri ar hyn o bryd. Byddai'r cynnig yn lleihau'r siwrneiau hyn yn sylweddol.

Ymgynghoriad:

Ymgwyrodd Cyngor Bro Morgannwg â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori' sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a sylwadau Estyn, ar gael yn yr ysgol ac ar wefan Cyngor Bro Morgannwg drwy'r ddolen ganlynol:

www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/ALN-phase-i-Centre-for-Learning-and-Wellbeing-SRB.aspx

Cyflwyno gwrthwynebiadau:

Yn unol ag adran 49 o'r 'Ddeddf', gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hynny yw erbyn diwedd y dydd **22 Rhagfyr 2020**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk neu:

Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau,
Cyngor Bro Morgannwg,
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holltwn,
Y Barri
CF63 4RU

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau
25 Tachwedd 2020